

Taflen ffeithiau: Teidiau a Neiniau

Rhagarweiniad

Mae bod â phlentyn gydag anabledd yn cael effaith ar y teulu cyfan, nid yn unig y rhieni a'r brodyr a chwiorydd. Fel tad-cu neu fam-gu i blentyn gydag anghenion arbennig, fe fyddwch yn darganfod eich hun o bosibl mewn sefyllfa anghyfarwydd ac weithiau anodd. Efallai y bydd rhieni'r plant, brodyr a chwiorydd a pherthnasau eraill yn edrych tuag atoch chi am gefnogaeth a chymorth ar adeg pan ydych yn ceisio dod i delerau â'r newyddion bod gan eich wyr neu wyres anabledd. Gobeithiwn y bydd y daflen ffeithiau hon yn eich helpu i nodi rhai o deimladau ac anghenion teidiau a neiniau eraill yn ogystal â thynnu sylw at rai syniadau ar gyfer y rhai hynny ohonoch sy'n ansicr ynghylch y dull gorau o gefnogi rhieni / gofalwyr plentyn gydag anabledd.

Canolbwyntio ar Deidiau a Neiniau

I'r rhai hynny ohonom sy'n ddigon lwcus i dyfu yn adnabod ein teidiau a'n neiniau, roedd y rhan fwyaf ohonom yn ystyried hon fel perthynas unigryw a chyfoethog. Fel mam-gu neu dad-gu, mae plant yn eich gweld chi fel hafan ddiogel, rhywun y gallant dreulio amser ag ef, a rhannu eu profiadau a chael hwyl. Yn yr un modd, gallwch chi fwynhau y pleser o fod gyda phlant a phobl ifanc heb lawer o gyfrifoldebau eich blynyddoedd magu plant chi eich hun. Yn fwy a mwy, gyda theuluoedd modern yn cael eu hwynebu gyda llawer o bwysau, fel swyddi anodd a chyfyngiadau ariannol, mae teidiau a neiniau yn ymwneud â darparu gofal plant a chefnogaeth, efallai fwy nag erioed o'r blaen. Gall hyn fod yn fwy fyth os yw'r wyr neu'r wyres yn cael ei (g)eni neu yn cael diagnosis o fod ag angen arbennig neu anabledd. Efallai y teimlwch fod mwy o bwysau arnoch chi i ddarparu cymorth.

Ymchwil i "fod yn Daid a Nain arbennig"

Mae llawer o'r ymchwil ar deidiau a neiniau plant gydag anghenion arbennig wedi ei gyflawni yn yr Unol Daleithiau (*Grandparents: Part of the Family* gan Brigit Mirfin-Veitch ac Anne Bray o *Families in Context* a olygwyd gan Barry Carpenter) er bod rhywfaint o ddiddordeb a gwaith yn dechrau cael ei wneud yn y DG. Yr hyn sy'n amlwg iawn mewn llawer o'r astudiaethau hyn yw'r cymorth y mae'r teidiau a'r neiniau wedi gallu ei ddarparu. Mae teidiau a neiniau sydd wedi bod yn llai cefnogol wedi tueddu i fod yn rhai sydd wedi ei darganfod yn anodd derbyn anabledd y plentyn. Yr hyn a all fod yn bwysig hefyd yw'r ffaith bod y mudiad anabledd wedi newid yn sylweddol yn ystod eu hoes – ni fu gan lawer brin ddim cyswllt â phlant anabl yn eu blynyddoedd ffurfiannol, oherwydd y gofelid am lawer o blant gydag anghenion arbennig y pryd hwnnw oddi cartref. Gall newidiadau yn agweddau'r cyhoedd tuag at anabledd yn gyffredinol a symudiad tuag at gynnwys plant mewn ysgolion a gweithgareddau'r prif lif, herio rhai o'u profiadau a rhagdybiaethau gwreiddiol.

Sut deimlad yw bod yn fam-gu neu dad-cu i blentyn gydag anabledd?

Cynhaliwyd gweithdy i deidiau a neiniau yn Richmond-upon-Thames yn ystod Haf 2000. Dyma rai dyfyniadau gan deidiau a neiniau, yn disgrifio eu teimladau pan glywsant fod gan eu hwyr neu wyres anabledd.

"Yr oedd yn anodd ymdopi a brwydro, piti na fuaswn i ddeng mlynedd yn iau".

"Roeddwn yn flin iawn. Pam ein bachgen ni?"

"Mae'n anodd gwybod sut i gefnogi fy merch a'i gwr – rwyf wedi ceisio rhoi llonydd iddynt"

"Anodd iawn ei dderbyn, roeddwn eisiau gwneud mwy i helpu".

"Roedd hon yn ffon ddwybig; roeddem yn pryderu am rieni'r plant ond hefyd yn bryderus am y plentyn".

Rôl teidiau a neiniau

Teimlai'r rhan fwyaf o bobl a fynychodd y gweithdy fod eu rôl fel taid neu nain yn un amrywiol iawn gyda rhai pryderon ychwanegol os oes gan y plentyn anghenion arbennig. Roedd llawer o bryderon ynglyn â faint o gysylltiad a ddylai fod ganddynt, pa gymorth y dylent ei gynnig ac roedd llawer o themâu cyffredin. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod bod yno yn rôl bwysig iawn i'w chwarae ond bod angen rhywfaint o sensitifrwydd ynglyn â lefel y cyfraniad y dylent ei roi. Teimlai nifer o'r teidiau a'r neiniau eu bod mewn cyfnod yn ystod eu bywyd lle roeddynt yn gallu rhoi amser a sylw a chynnig cefnogaeth. Yn dâl am hyn, teimlent fod bod â phlentyn gydag anghenion arbennig yn y teulu wedi eu helpu i fod yn fwy amyneddgar a dysgu mwy am anabled. Teimlai un taid neu nain bod effeithiau bod ag wyr neu wyres anabl wedi dwyn y teulu cyfan yn nes at ei gilydd.

Mae pob teulu yn wahanol o ran cyfansoddiad, ond mae llawer o deidiau a neiniau wedi dweud bod eu cysylltiad â bywyd eu hwyr neu hwyras wedi bod yn fwy os oedd ef / hi yn blentyn y ferch, yn hytrach na'r ferch yng nghyfraith. Roedd y rhan fwyaf o gysylltiadau â rhieni'r plentyn yn parhau yn dda, os oeddynt yn dda cyn i'r plentyn gael ei eni. Yn yr un modd, os nad oedd gan y rhiant gymar yn ymwneud â'r plentyn gydag anghenion arbennig, yna roedd y teidiau a'r neiniau yn aml yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth ychwanegol.

Perthnasau anodd rhwng pobl

Yn anochel, nid oes gan bob teulu berthnasau da â'i gilydd ac weithiau mae plentyn gydag anabledau yn ychwanegu at gysylltiadau sydd eisoes yn anodd. Dywedwyd bod teidiau a neiniau yn mynd drwy'r un dichter, galar ac emosiynau o ymwrthod ag sy'n effeithio ar y rhieni, ond mae rhai yn ei chanfod yn anodd symud ymlaen i dderbyn y sefyllfa. Mae llawer o deuluoedd yn disgrifio'r teimladau cyntaf hyn fel math o broses alaru sydd weithiau yn arwain at chwilio am rywun neu rywbeth i'w feio am hyn. Gall sylwadau fel "ochr pwy sydd i'w feio" neu "gallwch bob amser gael plentyn arall" achosi poen a phryder ychwanegol.

Yn yr un modd, mae rhai teidiau a neiniau yn or-barod i gynnig cefnogaeth a chynghor gan nodi ei bod weithiau yn anodd gwybod pryd i adael llonydd i bethau. Mae angen cryf i ofalu am eich plentyn eich hun a all greu teimladau mamol neu dadol cryf. Mae'n bwysig gwranddo'n wirioneddol ar y rhieni a chydabod eu hanghenion nhw yn ogystal ag ymdrin â'ch teimladau eich hun o golled.

Fel taid neu nain efallai na fyddwch bob amser yn rhannu'r un syniadau ynghylch magu plant a rhai eich mab neu ferch a'u cymar. Yr hyn sy'n bwysig er hynny yw agwedd gyson at y plentyn. Gellir osgoi anawsterau yn aml gan bawb sy'n ymateb i'r plentyn mewn ffordd debyg, yn arbennig ar gyfer y plant hynny sydd â phroblemau ymddygiad. Gellir helpu'r sefyllfaoedd yn aml drwy deimlo eich bod i gyd yn tynnu i'r un cyfeiriad!

Pan fo priodasau neu berthnasau yn chwalu gall hyn gael pob math o oblygiadau ar gyfer teidiau a neiniau. Gallwch fod yn pryderu ynghylch parhau i fod â chyswllt a'ch wyrion neu wyresau ac yn dymuno gwybod beth yw'ch hawliau cyfreithiol. Mae nifer o gyrff a all gynnig cymorth a chynghor ([gweler cyrff ddefnyddiol](#)). Mae rhai teidiau a neiniau yn darganfod eu hunain yn y sefyllfa o fod yn cymryd gofal o'u hwyron a'u hwyresau yn amser llawn pan fo teuluoedd yn chwalu. Mae'n amlwg fod angen llawer o gefnogaeth ar adegau fel hyn, boed hwn yn gymorth emosiynol neu ymarferol.

Beth sy'n ddefnyddiol i deidiau a neiniau ei wybod?

- Mae pob teulu yn unigryw, mae rhieni yn cymryd gwahanol ffyrdd ac amserau i ddod o hyd i'w llwybrau.
- Ceisiwch beidio â chymryd yn ganiataol bod cymorth wedi ei gynnig, fel help oddi wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol neu oddi wrth Feddyg Teulu neu Ymgynghorydd. Mae llawer o rieni yn teimlo nad ydynt yn cael unrhyw gefnogaeth hyd yn oed os yw'r gwasanaethau yno. Cofiwch hefyd y gallai rhai rhieni fod yn ei chael yn anodd hyd yn oed er ei bod yn ymddangos fel pe baent yn ymdopi.
- Yn aml iawn ceir grwpiau o gyflyrau penodol gyda thafleuni defnyddiol am anableddau unigol a ysgrifennir yn aml o safbwynt teuluoedd. Gall Cyswllt Teulu helpu gyda manylion grwpiau o'r fath.
- Mae'n bosib y bydd rhai camau arbennig o anodd i rieni fel o amgylch adeg y diagnosis neu i rai plant, pan na ellir rhoi unrhyw ddiagnosis penodol. Gall dechrau'r ysgol gynradd, symud i ysgol uwchradd, trawsnewid i wasanaethau oedolion fod yn adegau anodd pan fyddai cymorth ychwanegol yn cael ei groesawu.
- Yn aml mae'n rhaid i rieni ymdrin â nifer o wasanaethau statudol gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol a gall y broses fod yn hynod o flinedig. Gall cymorth gyda galwadau ffon, cefnogaeth mewn cyfarfodydd, neu gyda gwarchod y plant tra rhoddir sylw i'r materion hyn i gyd liniaru'r pwysau.
- O'n profiad ni, rydym wedi darganfod mai'r gefnogaeth orau i rieni yw rhieni eraill. Gall annog cefnogaeth o'r fath fod yn fanteisiol i'r teulu cyfan gan gynnwys cefnogaeth oddi wrth un taid a nain i daid a nain arall.

Siblingiaid

Mae siblingiaid plant gydag anghenion arbennig yn aml yn teimlo oherwydd gofal ychwanegol am eu brawd neu chwaer, bod diffyg amser i ystyried eu hanghenion nhw. Gall hyn arwain at weithgareddau teuluol cyfyngedig a phwysau ychwanegol gartref. Gall fod rôl bwysig i'w chwarae yma i deidiau a neiniau a all fod yn gallu cynnig rhywfaint o amser arbennig i'r plant eraill, neu eu cynnwys mewn gweithgareddau y byddent fel arall yn methu cymryd rhan ynddynt. Gall fod mor syml â chynnig lle tawel iddynt lle gallant wneud eu gwaith cartref neu gael amser iddynt nhw eu hunain. Yr un mor ddefnyddiol, lle mae hynny'n bosibl, yw i chi ofalu am y plentyn gydag anabledd, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr yw hyn fel y gall y plant eraill gael rhywfaint o amser gwerthfawr gyda'u rhieni. Mae Cyswllt Teulu wedi cynhyrchu taflen ffeithiau Siblingiaid ac Anghenion Arbennig sydd ar gael o wneud cais amdani.

Cefnogaeth i Deidiau a Neiniau

Mae ychydig o grwpiau i deidiau a neiniau yn dechrau cael eu sefydlu i gydnabod bod teidiau a neiniau hefyd yn teimlo'n ynysig ac y gall fod arnynt angen cymorth. Efallai nad yw rhai o'r rhwydweithiau sy'n cynnal rhieni ar gael mor rhwydd i deidiau a neiniau. Yn y gweithdy i deidiau a neiniau y bu i ni ei gynnal, nid oedd unrhyw un oedd yn bresennol erioed wedi cyfarfod teidiau a neiniau eraill mewn sefyllfa debyg a themlent fod hyn yn brofiad gwerthfawr iawn. Roedd llawer yn awyddus i "glywed beth oedd gan eraill i'w ddweud ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd". Gall fod rôl benodol i deidiau a neiniau i fod yn rhan o grwpiau cynnal sydd wedi eu sefydlu yn barod yn lleol ac ar draws y DG.

Mae'n ddefnyddiol iawn hefyd gwneud defnydd o'ch rhwydweithiau cynnal eich hunain, eich ffrindiau a'ch perthnasau. Os oes gan y plentyn deidiau a neiniau eraill gall fod yn ddefnyddiol crynhoi syniadau a chydweithio i gynnig cefnogaeth a hefyd i rannu'r baich. Dylech hefyd fod yn realistig am y math o gymorth y gallwch ei gynnig a chofio bod gennych chi anghenion hefyd gan gynnwys ystyriaethau am eich iechyd eich hun.

Gwybodaeth

Mae llawer o deidiau a neiniau yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o'r rhwydweithiau gwybodaeth arferol sydd ar gael i rieni ac yn teimlo y dylai gweithwyr proffesiynol eu cynnwys pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu. Maent yn aml yn edrych tuag at rieni am wybodaeth a gall hyn adael y rhieni yn teimlo nad oes cefnogaeth iddynt. Ni ddylai teidiau a neiniau fod yn ofnus ynghylch chwilio am wybodaeth a all fod ar gael i'w cynorthwyo i ddeall y sefyllfa a'u cynorthwyo i ddod yn wybodus am gyflwr y plentyn. Mae rhieni yn aml yn ei chael yn anodd egluro dro ar ôl tro i weithwyr proffesiynol am yr anabledd arbennig sydd gan y plentyn a gall fod yn rhyddhad iddynt wybod o leiaf o fewn eu teulu eu hunain, bod gan rywun rywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth. Gall Cyswllt Teulu helpu i ddod o hyd i wybodaeth am anableddau unigol neu gyflyrau meddygol a'r amrediad o faterion a all effeithio ar y teulu. Gall llyfrgelloedd lleol, canolfannau iechyd neu feddygfeydd fod yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol hefyd.

Sut y gall Cyswllt Teulu helpu?

Mae gan Cyswllt Teulu dim o ymgynghorwyr a swyddogion a all helpu gyda gwybodaeth. Gall hyn fod am gyflwr neu anabledd unigol, neu faterion yn ymwneud ag anabledd fel addysg neu fudd-daliadau. Ceisiwn ble bynnag y gallwn, roi manylion am rwydweithiau cynnal, grwpiau lleol ac ar draws y DG. Lle bo cyflwr yn un prin iawn a lle nad oes unrhyw grwp cynnal, ceisiwn gysylltu teuluoedd unigol. Rydym yma i wrando a siarad am unrhyw faterion yr ydych yn pryderu yn eu cylch ac rydym yn hapus iawn o glywed gan unrhyw aelodau o'r teulu. Rydym hefyd yn cynhyrchu amrediad o daflenni ffeithiau ar bynciau unigol.

Awgrymiadau oddi wrth deidiau a neiniau

- Rhowch arian iddynt yn awr i brynu cymorth sy'n angenrheidiol bob yn dipyn. Peidiwch ag aros i'w adael iddynt yn eich ewyllys.
- Sicrhewch eich bod yn cael eich arwain gan y rhieni, byddant hwy yn dweud wrthy ch beth y mae arnynt ei angen
- Gwrandewch! Byddwch yn sbwng!
- Fedr wch chi ddim rhoi cyngor
- Derbyniwch na fydd cyngor bob amser yn cael ei groesawu oddi wrthy ch chi
- Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw bod yno
- Ceisiwch ddeall effaith yr anabledd
- Cofiwch fod y gofalu yn mynd ymlaen ar ôl i chi beidio bod o gwmpas
- Os nad yw o unrhyw gymorth, peidiwch â dweud dim!
- Peidiwch â bod yn or-sensitif, weithiau mae rhieni eisiau gollwng stêm.
- Cynigiwch help, peidiwch â disgwyl i rywun ofyn i chi, ond byddwch yn sensitif.
- Canolbwyntiwch ar y plentyn, nid ar y diagnosis
- Parchwch y ffaith fod angen i rieni ymdrechu i sicrhau potensial gorau eu plentyn Gall derbyn anabledd y plentyn gymryd amser hir i'r rhieni
- Anogwch y plentyn i wisgo ac edrych yn debyg i'w oed
- Mae darganfod a rhannu gwybodaeth yn bwysig iawn
- "Neidiwch i mewn gyda'r ddwy droed"
- Fedr wch chi ddim cyffredinol ynghylch anabledd
- Peidiwch ag esgeuluso'r brodyr a'r chwirydd, mae ganddyn nhw anghenion arbennig hefyd!
- "Mae teidiau a neiniau yn aml yn teimlo'n ofnus a dydyn nhw ddim yn gwybod sut i helpu neu beth i'w wneud. Dydy hyn ddim bob amser yn golygu darparu cymorth ffisegol ond efallai ei fod yn golygu cymryd rhan mewn codi arian i grwp lleol er enghraifft. Weithiau mae'n haws cilio oddi wrth bethau, ond os ydych yn hyblyg ac yn barod i feddwl am y sefyllfa, mae'n bosibl fod rhywbeth y gallech ei wneud a allai wneud bywyd yn haws. Weithiau y pethau bach sy'n cyfrif fel mynd â rhiant allan i ginio, gwneud y siopa neu warchod fel y gall y rhiant gael bath mewn heddwch.

Stori Tad-cu a Mam-gu

Roedd yn sioc fawr pan oedd tua tair oed i sylweddoli fod Danny, ein hwyr bach yn awtistig. Pan anwyd ei frawd iau, Sam, gydag anabledau lluosog roeddem yn teimlo'n ddigalon ac yn dechrau gofyn pam a meddwl tybed beth neu pwy oedd yn gyfrifol. Roeddem yn dechrau poeni mai rhyw ffactor etifeddol oedd ar fai.

Bu i ni yn fuan iawn geisio gweithio mewn rôl gefnogol. Yn ymarferol roedd hyn yn haws pan oeddem yn byw yn agos a phan oedd y ddau blentyn a ninnau yn iau. Gallem helpu drwy fynd â Danny a'i chwaer Rowena allan efallai i lan y mor am bicnic neu fynd â'r plant i gyd am dro yn yr ardal leol. Ar ymweliadau, roeddem yn gallu helpu hefyd gyda garddio, y mynyddoedd dibendraw o olchi a thasgau eraill. Rydym bob amser wedi ceisio trin y bechgyn mor normal â phosibl; fel unigolion gwerthfawr gyda rhai nodweddion unigryw. Fwy nag unwaith rydym wedi cael ein dal yn tanamcangyfrif gallu a dealltwriaeth Danny – ac mae hynny yn aml wedi bod yn fantais iddo! Ar un trip allan, un funud roedd yn padlo'n hapus gyda ni ar lan y dwr, a'r nesaf roedd yn nofio allan i'r môr!

Mae Sam wedi bod ag angen gofal amser llawn erioed, ac mae wedi bod yn fwy anodd i ni helpu'n uniongyrchol gymaint gydag ef. Oherwydd nad ydym bellach yn gweld y teulu ond rhyw ddwy neu dair gwaith y flwyddyn, mae'n anodd creu perthynas gyda Sam fel ei fod, er enghraifft, yn fodlon i ni ei fwydo. Yn ffodus, mae gennym i gyd gariad mawr at gerddoriaeth, ac er y gall Danny yn canu'r piano yn gynnar yn y bore fod yn dipyn o dreth, gwahanol fathau o gerddoriaeth weithiau yw'r unig beth y gallwn i gyd ei fwynhau.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi bod yn falch o weld y plant yn ffynnu ac yn hapus yn eu gwahanol ffyrdd ond wedi sylweddoli fod hyn i raddau helaeth ar draul eu rhieni – y prif ofalwyr. Mae llawer yn dibynnu ar rieni yn gallu creu tîm o gynorthwyrwyr dibynadwy i reoli eu holl ymrwymadau gyda phob un o'u plant – rhywbeth sydd angen ei drefnu'n ofalus. Mae'n gysur i ni i weld fod ein merch a'i theulu yn cael rhywfaint o gefnogaeth i ymateb i'r llu o broblemau a luchir atynt. Rydym wedi helpu yn ariannol pan oedd modd i ni wneud hynny, i liniaru pwysau'r pryderon am arian, ac wedi sefydlu ymddiriedolaethau i warchod y ddau wyr yn ariannol yn y dyfodol.

Bellach mae'r wyrion – 20, 18 ac 15 oed bron yn oedolion. Mae Danny bellach yn byw oddi cartref ac mae Rowena yn gobeithio bod mewn prifysgol y flwyddyn nesaf. Rydym ni bellach yn ein wyth degau ac yn byw ymhellach i ffwrdd, fel bod ein cysylltiad yn anochel yn llai. Ond mae bod yn deidiau a neiniau i ddau fachgen gydag anghenion arbennig hefyd wedi sicrhau ein bod wedi lledu ein profiadau. Rydym wedi helpu mewn clwb i bobl anabl, wedi bod ar gwrs arwyddo Makaton ac wedi mynychu seminarau ynghylch awtistiaeth a geneteg. Mae hyn i gyd wedi ein helpu i ddod i delerau â'r sefyllfa, er i hyn fod yn anodd iawn ar y dechrau.

Gwen a George Cox

Darllen Pellach

Mae *Pan fo gan eich Plentyn Anghenion Arbennig* yn rhoi gorolwg o'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd plant gydag anabled, anhwylder prin neu angen arbennig. Ar gael oddi wrth Cyswllt Teulu.

Tafleini ffeithiau eraill Cyswllt Teulu

A Practical Guide for disabled People or Carers. Mae ar gael oddi wrth y Department of Health Publications, PO Box 777, Llundain, SE1 6XH. Mae'r llawlyfr yma wedi'i cynllunio i ddarparu

gwybodaeth diweddar a chywir amdano'ch hawliau a'r gwasanaethau allech chi ei ddefnyddio. Mae'r mwyafrif o'r wybodaeth yn perthnasol i wasanaethau yn Lloegr ond mae yn cynnwys rhai manylion cyswllt ar gyfer Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Cyrff Defnyddiol

Grandparents Association

Moot House
The Stow
Harlow CM20 3AG
Ffôn (01279) 444964

Mae'n rhoi gwybodaeth a chyngor i deidiau a neiniau sy'n byw ymhell oddi wrth eu perthnasau ifanc ac yn cefnogi'r teidiau a'r neiniau hynny y mae eu plant mewn gofal.

Grandparents Plus

18 Victoria Park Square
Bethnel Green
Llundain E2 9PF
Ffôn (020) 8981 8001

Yn hybu'r rôl o gofal gan perthynas ac gan neiniau a teidiau ar bob lefel, yn enwedig mewn amgylchiadau lle mae'r teulu wedi torri i lawr, rhieni sengl neu amgylchiadau anodd arall.

Family Rights Group

The Print House
18 Ashwin Street
Llundain E8 3DL
Ffôn 0800 731 1696 Llinell Cyngor (Llun-Gwen, 10yb-12yp & 1.30yp-3.30-yp)

Mudiad Genedlaethol sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i deuluoedd lle mae'r plant wedi ei ymglymu a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r mudiad wedi datblygu bâs ddata yn enwedig ar gyfer neiniau a teidiau sy'n gofalu yn y DG.